# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 9FED TACHWEDD, 2017**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 1 Tachwedd 2017)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

**AELODAETH (7)**

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Aled Wyn Jones
Peter Read

Simon Glyn

Peredur Jenkins

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes

John Pughe Roberts

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Cynghorydd David Cowans | Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| Cynghorydd John Griffith | Cyngor Mon |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 29.9.17 fel rhai cywir

## 5. CYSONI ISAFSWM PENSIYNAU GWARANTEDIG (IPG 8

I ystyried adroddiad y Rheolwr Pensiynau

## 6. BWRDD PENSIWN - AD-DALU TREULIAU, TÂL A LWFANSAU 9

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid (mewn ymgynghoriad gyda’r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol)

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau’r wasg a’r cyhoedd allan o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglyn a trafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol( yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae'r Adroddiad Dethol Gweithredwr yn darparu crynodeb o'r ymarferiad caffael i benodi gweithredwr ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, a gyflawnwyd gan yr wyth cronfa bensiwn yng Nghymru. Mae'r gwybodaeth yma yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif am gryfderau a gwendidau cymharol yr ymgeiswyr a'u cynigion, a'r sgoriau a arfarnwyd i'r ymgeiswyr.

## 8. ARGYMHELLIAD CAFFAEL Y BARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

(Copiau arwahan i aelodau’r Pwyllgor yn unig)

# PWYLLGOR PENSIYNAU DYDD GWENER, 29 MEDI 2017

**Yn bresennol**:
Y Cynghorwyr: Stephen Churchman (Cadeirydd), David Cowans (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Aled Wyn Jones a Peter Read.

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Simon Glyn, John Griffith (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), John Brynmor Hughes a Peredur Jenkins,

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

**i. Trefniadau Buddsoddiadau Ecwiti Preifat / Dyraniad Asedau rhwng Cronfeydd**

Eglurwyd bod y dewis rhwng wahanol gronfeydd a gynigir gan Partners Group fel arfer yn cael eu cyflwyno i dderbyn sêl bendith y Pwyllgor, ond gan nad oedd y wybodaeth gerbron y pwyllgor, awgrymwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo i ddirprwyo grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd, wneud y penderfyniad ac adrodd yn ôl ar hynny i'r Pwyllgor yn mis Tachwedd.

**Penderfynwyd dirprwyo grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd, wneud y penderfyniad ac adrodd yn ôl ar hynny i'r Pwyllgor yn mis Tachwedd.**

**ii. Proses Caffael Gweithredwr**

Adroddwyd bod Partneriaeth Pensiynau Cymru yn y broses o benodi Gweithredwr, ond gan fod y broses caffael cymhleth wedi cymryd amser, adroddwyd nad oedd y cyd-bwyllgor wedi cyfarfod i wneud yr argymhelliad i'r Cynghorau unigol, am y tro.

**Derbyniwyd y wybodaeth**

**iii. Cynrychiolydd newydd ar Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Yn dilyn ymddeoliad Mary Barnett, o Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol adroddwyd bod y Gymdeithas bellach wedi enwebu Clive Lloyd (Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe) i

gynrychioli Cymru (yr 8 gronfa yng Nghymru) ar Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun.

**Derbyniwyd y wybodaeth**

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 12 o Fehefin 2017 fel rhai cywir.

**5. MARKETS IN FINANCIAL INSTRUMENTS DIRECTIVE II (MIFID II)**

Eglurwyd bod awdurdodau lleol o dan y Ddeddf gyfredol yn y Deyrnas Unedig yn cael eu categoreiddio yn awtomatig fel cleientiaid *'proffeshiynol per se'* o ran busnesau nad ydynt o fewn sgôp MiFID. Maent hefyd yn cael eu categoreiddio fel cleientiaid '*proffeshiynol per se'* o ran busnes o fewn sgôp MiFID os ydynt yn bodloni prawf Large Undertakings MiFID. Yn unol a chyflwyniad gan MiFID, o Ionawr y 3ydd 2018, ni fydd modd i gwmnïau gategoreiddio awdurdod cyhoeddus lleol nad ydyw yn rheoli dyled gyhoeddus fel *'cleient proffesiynol per se'* ac felly bydd angen dosbarthu pob awdurdod lleol fel cleientiaid manwerthu oni bai bod cwmnïau yn symud i fyny i statws proffesiynol detholus.

I symud i fyny i statws cleient detholus gall awdurdodau lleol, lle nad ydynt yn bodloni'r Large Undertaking MiFID, ddewis gwneud hynny drwy gwblhau 'meini prawf symud i fyny' penodol.

Adroddwyd bod MiFID yn caniatáu i gleientiaid manwerthu sy'n dewis cael eu trin fel cleientiaid proffeshiynol fodloni dau brawf wrth gael eu hasesu – prawf meintiol a phrawf ansoddol.

Er mwyn i Cyngor Gwynedd gael eu trin fel corff proffesiynol a 'symud i fyny' bydd angen cwblhau camau priodol erbyn y 3ydd o Ionawr. Bydd angen cwblhau holiadur safonol meintiol ac ansoddol i'r diwydiant ynghyd a llythyru pob cwmni a rheolwr buddsoddi.

Ategwyd bod y broses yn ffurfioli y drefn bresennol a bod cyfathrach broffesiynol eisoes yn bodoli rhwng y Gronfa a'r cwmnïau. Byddai peidio 'symud i fyny' yn debygol o greu problemau masnach.

**PENDERFYNWYD**

i) **Nodi'r effaith bosib ar y strategaeth fuddsoddi o ddod yn gleient manwerthu o 3 Ionawr 2018 ymlaen.**

ii) **Cymeradwyo bwrw ati yn syth i wneud cais am statws cleient proffesiynol detholus gyda'r holl sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau y gall barhau i weithredu strategaeth fuddsoddi effeithiol.**

iii) **Wrth ymgeisio am statws cleient proffesiynol, bod y pwyllgor yn cydnabod ac yn cymeradwyo ei fod yn ildio'r warchodaeth sydd ar gael i gleientiaid manwerthu.**

iv) **Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y caniatâd perthnasol er dibenion cwblhau'r ceisiadau a phenderfynu ar y seiliau priodol ar gyfer y cais hwnnw.**

**6. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2017 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Cyflwynwyd er gwybodaeth ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn ôl-Archwiliad ynghyd ag adroddiad ISA260 gan Deloitte. Amlygwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu eisoes wedi cymeradwyo'r cyfrifon yn eu cyfarfod ar y 28ain o Fedi a bellach wedi eu hardystio yn derfynol. Nodwyd mai arfer dda fyddai cyflwyno'r wybodaeth i'r Pwyllgor Pensiynau.

Tynnwyd sylw at Adroddiad Deloitte (Swyddfa Archwilio Cymru) gan nodi bod yr Archwilydd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad diamod ar y datganiadau ariannol yn amodol ar ddatrys mân faterion oedd heb eu cwblhau. Nodwyd bod partner cwmni Deloitte wedi datgan bodlonrwydd ynghylch y materion hyn a bod dogfennau perthnasol bellach wedi ei lofnodi yn sgil y drafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Mewn ymateb i'r adroddiadau, nododd yr Aelodau eu diolch i'r tîm am eu gwaith calonogol.

**PENDERFYNWYD derbyn y Datganiad o Gyfrifon ac Adroddiad Deloitte / Swyddfa Archwilio Cymru**

**7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2017/18 - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Cyflwynwyd er gwybodaeth yr adolygiad canol blwyddyn sef agweddau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn o'r adroddiad oedd eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 28ain o Fedi 2017. Amlygwyd bod Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau yn adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys wrth osod y strategaeth (mis Mawrth yn y flwyddyn ariannol flaenorol), ar ôl y flwyddyn (mis Mai yn y flwyddyn ariannol ganlynol), ac ar ganol y flwyddyn (ym mis Medi eleni).

Amlygwyd yn yr adroddiad ar weithgareddau'r trysorlys, ynghyd â'r monitro risg a rheolaeth risg gysylltiedig. Nodwyd, bod yr hyblygrwydd yn cael ei reoli ac mai'r flaenoriaeth yw cadw arian y gronfa yn saff, a bod ceisio'r llog gorau yn eilradd i'r diogelwch.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwerth y bunt Brydeinig yn sgil trafodaethau Brexit, nodwyd bod pryderon wedi codi, ond bod ymateb y marchnadoedd yn dilyn canlyniad yr etholiad wedi bod yn ddistaw gyda hyder busnes yn ddibynnol ar gynnydd (neu ddim) trafodaethau Brexit. Nodwyd bod buddsoddiadau wedi perfformio yn well yn nhermau'r bunt, ond fod gwerth buddsoddiadau yn ddibynnol ar berfformiad asedau mewn gwledydd byd eang.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:30am

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **9 Tachwedd 2017** |
| **TEITL** | **Cysoni Isafswm Pensiynau Gwarantedig (IPG)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor ymestyn bodolaeth y tîm cysoni IPG.** |
| **AWDUR** | **Nicholas Hopkins – Rheolwr Pensiynau** |
| **ARGYMHELLION** | **Cymeradwyo ymestyn y tîm cysoni IPG i 31 Rhagfyr 2018** |

## 1. Cefndir

1.1 Yn ei gyfarfod 10 Tachwedd 2015 cymeradwyodd y Pwyllgor hwn argymhelliad i sefydlu tîm mewnol i gysoni Isafswm Pensiynau Gwarantedig yn unol ag argymhellion CThEM.

## 2. Diweddariad

2.1 Ar 13$^{eg}$ Medi, mewn ymateb i gais gan Bwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol am adroddiad cynnydd yn y gwaith, anfonodd Cronfa Bensiwn Gwynedd y data ystadegol canlynol.

| | Cyfredol | Gohiriedig | Pensiynwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y nifer o achosion i'w cysoni | 15,007 | 6,559 | 9,571 | 31,137 |
| Cyfanswm y nifer o achosion wedi eu cysoni | 11,092 | 5,083 | 7,679 | 23,854 |
| Cyfanswm y nifer o achosion lle mae gan yr awdurdod gweinyddu cofnod ar ei system sydd angen eu cysoni. | 3,833 | 1,308 | 2,048 | 7,189 |
| Cyfanswm y nifer o achosion lle nid oes gan yr awdurdod gweinyddu cofnod ar ei system, a sydd angen eu cysoni | 82 | 4 | 8 | 94 |

2.2 Bydd yr achosion yn ymddangos fel 'angen eu cysoni' yn achosion dyrys, angen peth trafodaeth rhwng y Gronfa a CThEM parthed cyfnodau contractio allan.

2.3 Bwriad CThEM yw cau holl waith cysoni ar 31 Rhagfyr 2018 gan anfon hysbysebion IPG allan yn allan yn fuan wedi hynny. Gyda nifer o ymholiadau heb eu hateb gan CThEM (yn ogystal ag ymholiadau pellach i ddod) ni fydd yn bosib cwblhau'r gwaith erbyn Mawrth 2018.

2.4 Gwnaf gais i ymestyn y tîm cysoni IPG tan Ragfyr 2018, cyfnod o naw mis, am y costau ychwanegol canlynol yn seiliedig ar raddfeydd cyflog 2017/18 (yn gynnwys argostau)

| Manylion / Teitl Swydd | Graddfa | Cyflog LL/A Blynyddol | Cyfanswm costau ychwanegol i Ragfyr 2018 |
|---|---|---|---|
| Uwch Swyddog Pensiynau Rh/A 16 awr 9 mis | S3 | £27,668 | £ 9,127 |
| Arweinydd Tîm Cysoni Ll/A am 9 mis | S2 | £24,964 | £24,764 |
| Cymhorthydd cysoni Ll/A am 9 mis | GS5 | £17,772 | £17,103 |
| **Cyfanswm** | | | **£50,994** |

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor gymeradwyo £50,994 o gyllideb ychwanegol i'r Uned Weinyddu Pensiynau, er mwyn ariannu parhad y tîm prosiect tan 31 Rhagfyr 2018 (dyddiad terfyn CThEM).

# Eitem 6

CYFARFOD **Pwyllgor Pensiynau**

DYDDIAD **9 Tachwedd 2017**

TEITL **Bwrdd Pensiwn - Ad-dalu Treuliau, Tâl a Lwfansau**

AWDUR **Y Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad gyda’r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol**

---

**1.** Yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Gwynedd, mae grym wedi’i ddirprwyo i’r Pwyllgor Pensiynau ymrwymo i wariant sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn a Chronfa Bensiwn Gwynedd.

**2.** Sefydlwyd Bwrdd Pensiwn Cyngor Gwynedd ers mis Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad hwn yn bwriadu sicrhau na fydd unrhyw aelod o'r Bwrdd allan o boced o ganlyniad i'w haelodaeth. Mae’r argymhelliad isod yn ceisio cael gwared ag anfanteision posibl i aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, a digwyddiadau cymeradwy, tra’n osgoi darparu cymhelliant ariannol yn unig i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

**3.** **Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau benderfynu:**

i. Talu lwfans i Gynrychiolwyr Cyflogwyr a Chynrychiolwyr Aelodau'r Cynllun am fynychu cyfarfodydd yn ymwneud â busnes y Bwrdd Pensiwn (gan gynnwys mynychu hyfforddiant) ar y cyfraddau gosodwyd ar gyfer aelodau annibynnol o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd a’r aelod lleyg o Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd.

ii. Ni fydd unrhyw lwfans yn cael ei dalu os yw'r aelod o'r Bwrdd yn cyflawni'r rôl hon o fewn eu diwrnod gwaith arferol heb ostyngiad mewn tâl. Ar gyfer Cynghorwyr sydd wedi'u penodi i'r Bwrdd, byddai'r rôl yn rhan o wahanol benodiadau'r cyngor y maen nhw'n eu cymryd. Felly, mae'n fater i'r Cyngor penodol sy’n gwneud y penodiad i ystyried sut y dylid ymdrin â chyfrifoldebau aelodaeth fel rhan o'u Cynllun Lwfans Aelodau perthnasol.

iii. Bydd gan bob aelod o'r Bwrdd Pensiwn hawl i hawlio lwfansau teithio a chynhaliaeth ar gyfraddau gosodwyd i aelodau annibynnol Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd a’r aelod lleyg o Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd. Bydd yr holl gostau (lwfans am fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn, lle’n briodol, ynghyd â lwfansau teithio a chynhaliaeth) yn cael eu codi ar y Gronfa Bensiwn.

**4.** Cyfeirir at lwfansau teithio a chynhaliaeth uchod er cyd-destun a chyflawnrwydd penderfyniad y Pwyllgor Pensiynau. Mae’r rheiny eisoes yn daladwy ac yn cael ei hawlio. Amcangyfrifir byddai’r gost ychwanegol o weithredu’r polisi uchod yn llai na £2,000 y flwyddyn.